

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad: Dydd Mercher 13 Mawrth 2002
Amser: 2:00 pm hyd 4:30 pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol:

Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

Tom Middlehurst, Cadeirydd	Alun a Glannau Dyfrdwy
Lorraine Barrett	De Caerdydd a Phenarth
(yn dirprwyo dros Richard Edwards)	
Eleanor Burnham	Gogledd Cymru
David Davies	Mynwy
Geraint Davies	Rhondda
Sue Essex, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd	Gogledd Caerdydd
Helen Mary Jones	Llanelli
Val Lloyd	Dwyrain Abertawe
Karen Sinclair	De Clwyd
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Swyddogion:

Martin Evans	Cyfarwyddwr y Grwp Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd
--------------	---

Keith Bush	Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
Gerry Quarrell (eitem 2)	Yr Is-adran Cefn Gwlad
Angharad Huws (eitem 2)	Yr Is-adran Cefn Gwlad
Robin Shaw (eitem 3)	Cyfarwyddwr Trafnidiaeth
Meryl James (eitem 3)	Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth
Tom Cassidy (eitem 4)	Prif Weithredwr, Cadw: Henebion Cymru
Richard Avent (eitem 4)	Pennaeth Arolygiaeth, Cadw
Andrew Hood (eitem 4)	Pennaeth Cyflwyno, Cadw
Douglas Hogg (eitem 4)	Prif Bensaer, Cadw

Cyrff Allanol:

Huw Davies (eitem 2)	Y Comisiwn Coedwigaeth
James Llewelyn (eitem 3)	Gwent Consultancy
Chris Gibb (eitem 5)	Wales and Borders Trains
Chris Turner (eitem 5)	Virgin Trains
Mark Barker (eitem 5)	First North Western

Ysgrifenyddiaeth:

Siwan Davies	Clerc y Pwyllgor
Vaughan Watkin	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Sylwadau Agoriadol

1. Penodwyd Tom Middlehurst yn Gadeirydd dros dro, yn unol â Rheol Sefydlog 8.17, tra bydd Richard Edwards yn absennol o'r Cynulliad Cenedlaethol dros dro. Byddai hefyd dros dro yn ysgwyddo rôl Richard Edwards fel un o enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor.

0.2 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio 2002/3 wedi

cwrdd ar 4 Mawrth, a diolchodd i Geraint Davies, Rhodri Glyn Thomas a Val Lloyd am wneud yn siwr eu bod ar gael.

0.3 Yn sgîl yr ad-drefnu o fewn Plaid Cymru, byddai Helen Mary Jones yn symud i rôl newydd fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyfrnid gwerthfawr i waith y Pwyllgor.

Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Richard Edwards; yr oedd Lorraine Barrett yn dirprwyo drosto.

2. Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau o dan Reol Sefydlog 4.5. Gwnaed hynny fel a ganlyn:

- Val Lloyd – Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe
- Geraint Davies – Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Is-ddeddfwriaeth: Cynigion i ddiwygio Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994

1.3 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ynglyn â chynigion i ddiwygio Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 er mwyn darparu ar gyfer offer symudol i gasglu sylweddau sy'n disbyddu osôn o gyfarpar rheweidio (copi ynghlwm yn atodiad 1). Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r diwygiad fynd rhagddo drwy drefn y Weithrediaeth.

Eitem 2: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Ychwanegol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy EPT-06-02 (p 1)

1. Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor ar gynigion i roi darpariaethau yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ar waith yng nghyswllt: (i) cyfyngu ar fynediad; a (ii) cyflwyno tir yn wirfoddol fel tir mynediad.

2.2 Gofynnodd yr aelodau am i sylw gael ei roi i'r sylwadau canlynol fel rhan o'r cynigion i gyfyngu mynediad:

- Rhybudd am gyfyngiadau – dryswch posibl ynglyn â'r term "fel arfer" mewn perthynas â'r cyfnod rhybuddio o bum diwrnod i gyfyngiadau;
- Gwybodaeth am gyfyngiadau – y dylid ystyried darparu llinell ffôn er gwybodaeth i'r cyhoedd a fyddai'n darparu negeseuon tâp am y cyfyngiadau cyfredol;
- Apeliadau – ni ddylai'r drefn fod yn fiwrocraidd.

2.3 Byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad yn nhymor yr Haf am ganlyniad yr ymarferion ymgynghori ar y cynigion ar gyfer y naill set a'r llall o reoliadau ac ar sut y câi'r safbwyntiau a fynegwyd eu cymryd i ystyriaeth. Byddai'r Pwyllgor wedyn yn penderfynu a oedd am i'r Llywodraeth ymgynghori ynglyn â'r rheoliadau drafft.

2.4 Canmolwyd y ffordd yr oedd y Gweinidog wedi ymdrin â'r Pwyllgor yn ei rôl yn manylu ar yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig i roi darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar waith. Roedd yr is-ddeddfwriaeth wedi ei chyflwyno fesul darnau hylaw ac mewn trefn resymegol, a chanmolwyd y drefn a fabwysiadwyd fel arfer da o ran rhoi llais i bwyllgorau pwnc yn gyffredinol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth.

Eitem 3: Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd - EPT-06-02 (p 2)

3.1 Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, cyn i Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd ar gyfer 2002-2010 gael ei chwblhau.

2. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr agweddau isod o ddiogelwch y ffyrdd:

- Gwahaniaethau mewn cyfraddau damweiniau rhwng gwahanol grwpiau, yn enwedig plant ac oedolion;
- Gyrru o dan ddylanwad cyffuriau;
- Gyrru gan ddefnyddio ffôn symudol;
- Annog dulliau trafndiaeth amgen a mwy diogel yn lle'r car;
- Rhoi llais i gymunedau lleol mewn prosiectau diogelwch y ffyrdd;
- Yr angen am gyfyngiadau cyflymder a pharthau cartrefi, a'u heffeithiolrwydd;
- Peryglon neilltuol yn ymwneud â beiciau modur;
- Ystyriaethau iechyd a diogelwch yn ymwneud yn benodol â'r sawl a gyflogir i yrru, neu sy'n gyrru fel rhan o'i waith.

2. Bwriadai'r Gweinidog lansio'r Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd i Gymru yn yr haf. Gofynnodd y Pwyllgor am i'r Gweinidog ystyried y materion diogelwch y ffyrdd sy'n berthnasol i'r gymuned sipsiwn-teithwyr cyn cwblhau'r strategaeth yn derfynol.

Eitem 4: Cadw – Cynllun Corfforaethol Drafft 2002-2003 - EPT-06-02 (p 3)

1. Ceisiodd Tom Cassidy farn y Pwyllgor ar gynllun corfforaethol drafft Cadw a'r targedau ar gyfer 2002-03.

4.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y materion canlynol:

- Taliadau mynediad – rhesymau am y gwahaniaeth rhwng polisi prisio Cadw a mynediad

am ddim i amgueddfeydd ac orielau yng Nghymru;

- Cyfle cyfartal – canllawiau ar fynediad i'r anabl i adeiladau rhestredig, archwiliad mynediad o'r henebion y gofali'r amdanynt, a'r angen i roi cyhoeddusrwydd i'r cynnydd a wneir;
- Apeliadau – Y peirianwaith ar gyfer apeliadau yn erbyn rhestru y gellir eu gwneud i'r Gweinidog ac, yn y pen draw, i'r Llysoedd;
- Rhestru –fod "gwerth grwp" yn cael ei gymryd i ystyriaeth gan Cadw mewn penderfyniadau rhestru, ac y gallai hynny effeithio ar y nifer o eiddo a restrir mewn – er enghraifft – pentref gardd.

4.3 Byddai'r Pwyllgor yn ystyried yr angen i adolygu'r polisi o godi tâl ar safleoedd Cadw fel rhan o broses yr Adolygiad Pum Mlynedd. Byddai adroddiad drafft ar gam 1 yr Adolygiad yn cael ei ystyried yn nhymor yr haf.

Eitem 5: Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru

5.1 Roedd cynrychiolwyr o dri o'r cwmnïau gweithredu trenau sy'n darparu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru yn bresennol i ateb cwestiynau am ansawdd y gwasanaethau hynny. Mae copïau o'r cyflwyniadau a wnaed gan Mark Barker (First North Western), Chris Gibb (Wales and the Borders) a Chris Turner (Virgin Trains) ynghlwm yn atodiadau 2, 3 a 4.

5.2 Tynnodd yr aelodau sylw at yr angen i wella'r agweddau isod o wasanaethau i deithwyr:

- Integreiddio gwasanaethau rheilffyrdd Gorllewin Cymru gyda'r gwasanaethau fferi i Iwerddon;
- Mynychder y gwasanaethau i'r Gorllewin o Gaerdydd ac Abertawe, yn enwedig i gymudwyr;
- Manteisio i'r eithaf ar botensial twristiaeth Rheilffordd Canol Cymru;
- Gwneud yn siwr nad yw trenau Valley Lines mor orlawn a gwella ansawdd y gwasanaeth;
- Gwella'r gwybodaeth i deithwyr, yn enwedig pan fo gwasanaethau yn cael eu newid ar y funud olaf;
- Buddsoddi rhagor yn y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn gyffredinol (i Railtrack a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol);
- Diogelwch ar drenau yn hwyr y nos;
- Gwell cysylltiadau rhwng gwasanaethau yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Cymru.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r cwmnïau gweithredu trenau am ddod i'r cyfarfod a chofnododd siom y Pwyllgor nad oedd First Great Western wedi anfon cynrychiolydd.

Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 27 Chwefror

6.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 17 Ebrill 2002 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002

ATODIAD 1

DATGANIAD GAN SUE ESSEX AC, Y GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD

Cynigion i ddiwygio Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 er mwyn darparu ar gyfer offer symudol i gasglu sylweddau sy'n disbyddu osôn o gyfarpar rheweiddio.

Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi darparu grant penodol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo â'r baich ychwanegol y maent yn ei wynebu erbyn hyn yng nghyswllt gwaredu oergelloedd domestig, yn dilyn Rheoliad UE ar sylweddau sy'n disbyddu osôn.

Erbyn hyn mae offer symudol ar gael sy'n gallu casglu sylweddau sy'n disbyddu osôn o oergelloedd; bydd offer o'r fath yn cynnig cyfle i ysgafnhau'r baich hwn. Fodd bynnag, nid yw Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994 (rheoliad 12) ar hyn o bryd yn ymdrin â'r math hwn o offer symudol. O ganlyniad, er bod yr offer ar gael, ni ellir ei ddefnyddio.

Dros y dyddiau nesaf, mae DEFRA yn bwriadu dod â Rheoliadau i rym a fydd yn caniatáu i offer symudol o'r fath weithredu, a bwriada wneud hynny heb ymgynghori â'r cyhoedd. Fodd bynnag, ni fydd hynny ond yn caniatáu i gwmnïau o Loegr weithredu yn Lloegr. Er mwyn caniatáu i gwmnïau Cymru ddefnyddio'r offer hwn ac i alluogi awdurdodau lleol Cymru i fanteisio arno rydym yn bwriadu cyflwyno diwygiadau cyffelyb yng Nghymru.

Er mwyn lleihau'r anfantais i fusnesau ac awdurdodau lleol Cymru i'r eithaf, ni allaf weld unrhyw ddewis arall ond argymhell i'm cydweithwyr yn y Cabinet fod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan drefn y Weithrediaeth.

Nid oes unrhyw fanylion penodol ar gael gennyf ar y funud ond byddaf yn cynnal ymgynghoriad byr yn fuan, gan eich cynnwys chi wrth gwrs, a byddaf yn rhoi gwybod i chi am unrhyw ddatblygiadau.

CYFLWYNIAD GAN FIRST NORTH WESTERN (MARK BARKER)

PERFFORMIAD FIRST NORTH WESTERN

- Perfformiad ar hyn o bryd
- Materion Perfformiad
- Gweithredu
- Casgliadau

PERFFORMIAD AR HYN O BRYD

- Roedd perfformiad First North Western yng Nghymru dros y 4 wythnos yn gorffen ^{2il} Mawrth yn rhagori ar Dargedau Siarter y Teithiwr
- Gogledd Cymru Rhyngdrefol
- Dibynadwyedd: Targed 99%, Gwirioneddol 99.4%
- Prydlondeb: Targed 91%, Gwirioneddol 92.6%
- Canghennau Gogledd Cymru
- Dibynadwyedd: Targed 99%, Gwirioneddol 99.3%
- Prydlondeb: Targed 90%, Gwirioneddol 93.3%
- Perfformiad cyffelyb dros y pedair wythnos flaenorol
- Gogwydd cryf tuag at adferiad yn dechrau dod yn amlwg ar ôl diwedd y tymor dail yn cwmpo a'r tywydd gwael yn ddiweddar

MATERION PERFFORMIAD

- Golwg gyffredinol
- Tagfeydd ar y Rhwydwaith a Thwf
- Y Fflyd
- Gweithrediadau
- Gwelliannau diogelwch
- Railtrack

GOLWG GYFFREDINOL

- Mae'r proffil perfformiad yn debyg i broffil Gweithredwyr Trenau cyffelyb
- Mae perfformiad First North Western yn well yn gyffredinol, ond maent i gyd yn dangos effeithiau ffactorau allanol
- Lefel uchel o berfformiad drwy 1999/2000 a dechrau 2000/1, yna ddirywiad amlwg iawn
- Gwelliant cyson i'w weld erbyn hyn
- Mae'r rhyngweithio yn gymhleth – effaith "lluosi" oedi yn cynyddu'r munudau oedi fesul

TAGFEYDD AR Y RHWYDWAITH A THWF

- Coridorau allweddol yn llawn i'r eithaf cyn twf
- Twf sylweddol mewn teithwyr a chludiant nwyddau ar hyd coridorau allweddol e.e. Manceinion Deansgate – Ardwick, Birmingham New Street
- Amseroedd oedi mewn gorsafoedd yn annigonol erbyn hyn
- Aflonyddu yn cael llawer mwy o effaith na chynt

Y FFLYD

Dosbarth 175

- Dim ond un cyflenwr i gadw at amserlenni'r ymrwymiad yn y Cytundeb Masnachfrait
- £80m wedi ei fuddsoddi mewn fflyd o 27 trê'n a £15m mewn depo pwrpasol a chontract cynnal a chadw 15 mlynedd i ATSL
- Ymdrech sylweddol ar bob lefel o F.N.W & First PLC i sicrhau bod trenau'n cael eu darparu ar amser ac yn unol â'r fanyleb
- Realiti: Trenau'n cael eu darparu'n hwyr, y cyflenwad yn ansicr ac annibynadwy
- Cyfnewid â cherbydau eraill, ond mae gwasanaethau Gogledd Cymru yn flaenoriaeth

Fflyd Newton Heath

- Oedi mewn darparu cerbydau
- Fflyd Dosbarth 101 wedi'i chadw, gan ychwanegu ati i greu hyblygrwydd
- Gweithiodd y fflyd bresennol yn galetach i wneud iawn am y diffyg trenau 175 gan arwain i ddechrau at:-

1. Ohirio gwaith cynnal a chadw ar wahân i waith diogelwch
2. Yr hyn sydd ar gael vs Dibynadwydd
3. Cyfraddau colledion uwch

GWEITHREDIADAU

- Gyrwyr: F.N.W yn methu cystadlu ar gyflog na her y gwaith, felly mae'r cyfraddau trosiant yn uwch na'r hyn y byddid wedi ei ddisgwyl
- Recriwtiwyd dros 200 o yrwyr dros y 18 mis diwethaf ond prin fod hynny yn cyfateb i'r trosiant
- Dros 100 Docynnwyr wedi'u recriwtio dros y 18 mis diwethaf – mae'r farchnad wedi'i disbyddu mewn rhai ardaloedd
- Hyfforddiant diwygiedig i gwrdd â safonau diogelwch uchel yn golygu llai o hyblygrwydd

ymysg gyrwyr newydd (oherwydd gwybodaeth gyfyngedig am lwybrau a thyniant)

- Hyfforddiant a sesiynau cyfarwyddo ychwanegol ym maes Diogelwch
- Mae darparu trenau 175 yn hwyr wedi tarfu ar raglenni hyfforddi

GWELLIANNAU DIOGELWCH

O reidrwydd, mae datblygiadau Diogelwch diweddar wedi effeithio ar Brydlondeb a Dibynadwyedd:-

- Mesurau lliniaru SPAD: cyfyngiad cyflymder 20mya ym Manceinion Piccadilly
- Technegau Gyrru Amddiffynnol
- Newidiadau i'r Llyfr Rheolau yn ehangu'r diffiniad o offer diogelwch sy'n arwain at dynnu'r trê'n o wasanaeth pan fydd yr offer yn methu
- Amddiffyniad Byffer stopio TPWS
- Newidiadau gweithredol ym Manceinion Piccadilly

Rhaid rhoi'r pwys pennaf ar ddiogelwch; mae'r rhain yn sialensiau y mae'n rhaid i'r diwydiant ymateb iddynt

RAILTRACK

- Yn gyfrifol am 50% o'r dirywiad mewn perfformiad er 2000/1 Q.1
- Effeithiodd craciau ar gorneli cledrau ar wasanaethau Birmingham – Crewe-Gogledd Cymru yn arbennig
- Llifogydd hydref 2000 a gaeaf 2001/2
- Y seilwaith yn fregus ac yn mynd yn fwy a mwy annibynadwy
- Mae'r Rhaglen Adfer Genedlaethol wedi sefydlogi'r rhwydwaith, ond:-
- Lefel uwch o funudau oedi na chynt
- Adferiad y rhwydwaith yn arafach na'r rhagolygon
- Mae'r rhagolygon i Barth y Gogledd Orllewin am y flwyddyn gyfredol a 2002/3 yn waeth na 2000/1
- Mae canolbwyntio ar GCC ar draul cynnal a chadw rheolaidd wedi arwain at gynnydd yn y cyfyngiadau Cyflwr Trac ac mewn asedau'n methu

GWEITHREDU

- Y Fflyd
- Gweithrediadau
- Railtrack

GWEITHREDU: Y FFLYD

Dosbarth 175

- Newidiadau sylweddol wedi'u cynnwys mewn contract diwygiedig gyda ATSL
- Newidiadau dibynadwyedd ar y gweill
- Cynyddwyd y gweithlu yn nepo Caer
- Y broses Deunyddiau/Rhannau Sbâr wedi ei gwella
- Peiriannydd Cynyddu Dibynadwyedd a thîm cefnogi wedi eu penodi
- Targedau Perfformiad wedi'u haildiffinio
- Cyswllt agos rhwng F.N.W, ATSL, Alstom & Porterbrook i wella perfformiad y fflyd

Fflyd Newton Heath

- Rheoli gan ganolbwyntio ar Ddibynadwyedd sydd â Ffocws iddo
- Rheoli Pobl : system "Kaisen"
- Hyfforddiant, gwaith tîm, cymhelliad
- Newidiadau dibynadwyedd i'r cerbydau
- Gwelliannau o ran ansawdd a chyflenwad rhannau sbâr
- Prosiectau i ganfod a chywiro namau sy'n ymddangos dro ar ôl tro
- Newidiadau fel bod modd rhyddhau/cau drysau yn gyflym wedi'u cwblhau ar ddosbarth 323, ar y gweill ar gyfer dosbarth 142, 150
- Gwelliannau i fedrau'r staff

GWEITHREDU: GWEITHREDIADAU

- Gwaith Recriwtio a Hyfforddi wedi ei anelu fel y bydd yn ateb yr holl anghenion gweithlu a ragwelir yn y dyfodol
- Rheolwr Perfformiad Cyfredol wedi ei benodi
- Rheolwyr rheng flaen newydd Perfformiad Criwiau Trenau, Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Gorsafoedd wedi eu penodi i roi ffocws i'r gwaith o wella safonau mewn meysydd allweddol
- Hyrwyddwyr Perfformiad i ganfod a datrys materion perfformiad lleol
- Grwp Rheoli Perfformiad; uwch dîm traws-swyddogaethol yn canolbwyntio ar berfformiad
- Dros 40 o gynlluniau yn cael eu gyrru ymlaen
- Adolygiad o ddulliau gweithredu a medrau gan y Swyddfa Reoli er mwyn gwella effeithiolrwydd

GWEITHREDU: RAILTRACK

- Mae F.N.W yn cyfrannu'n sylweddol iawn tuag at Grwpiau Cyflenwi Ardal i fynd i'r afael â materion hysbys gyda Railtrack a Gweithredwyr eraill
- Amseroedd rhedeg fesul adran, amseroedd oedi mewn gorsafoedd a lwfansau cyffyrdd yn cael eu hadolygu mewn manau allweddol
- Polisiâu rheoleiddio yn cael eu hadolygu

CASGLIADAU

- First North Western yn deall y materion o bwys yn dda
- Atebolrwydd a Chyfrifoldeb wedi eu pennu
- Mae gan F.N.W gynlluniau ar waith / ar y gweill yng nghyswllt materion sydd o dan ei reolaeth ac mae'r rhain yn dwyn ffrwyth
- Mae Railtrack yn cyfrannu'n sylweddol iawn at oedi ac ni ragwelir y bydd perfformiad yn gwella

ATODIAD 3

CYFLWYNIAD GAN WALES AND BORDERS (CHRIS GIBB)

Perfformiad

- Mae W&B yn rhedeg 580 o drenau'r dydd, yn gwasanaethu Cymru gyfan, gan gynnwys Valley Lines a gwasanaethau i Fanceinion, Birmingham, Bryste, Llundain Waterloo a Gorllewin Lloegr. Mae gennym 1260 o staff, 59,000 o siwrneiau y dydd
- Mae'r perfformiad y gorau mewn 15 mis ac mae wedi dod dros ddigwyddiadau Hatfield yn llwyr
- Yn Chwefror darparwyd 99.9% o wasanaethau Siarter y Teithiwr, gan ragori ar y targed o 99.5%
- Yn Chwefror darparwyd 88.8% o'r gwasanaethau yn unol â thargedau Siarter y Teithiwr, gan fethu'r targed o 92% o 5 (teithiau byr), 10 (teithiau hir).
- Wrth ganslo 2-3 trên y diwrnod, roedd hanner yr amgylchiadau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth, roedd chwarter i'w priodoli i drenau yn methu a chwarter i broblemau eraill o eiddo W&B.
- Fel arfer mae 60 o drenau'r diwrnod yn rhedeg yn hwyr sydd yn uwch na'r targed, 45 oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, 7 am fod trenau'n methu ac 8 oherwydd problemau eraill o eiddo W&B.

Materion o bwys

- Tresmasu a Fandaliaeth
- Cerbydau'n taro pontydd a chamddefnyddio croesfannau gwastad
- Llifogydd

- Cyfyngiadau cyflymder ar groesfannau gwastad
- Dibynadwyedd y cerbydau
- Recriwtio criwiau trenau
- Dibynadwyedd y seilwaith
- Tagfeydd
- Gorlenwi – wedi cynyddu 10% ers y llynedd ar Valley Lines

Gwelliannau Cyffredinol

- Creu cwmni newydd i Gymru a'r Gororau
- Dod â W&W, VL, CT ynghyd yng Nghymru
- Gorsafoedd FGW i ymuno ar y 1^{af} Ebrill, yn amodol ar gontract
- Gogledd Cymru y flwyddyn newydd, ar ôl dyfarnu'r fasnachfaint
- Llwybrau'r Cambrian a Wrecsam : y perfformiad trychinebus wedi ei ddatrys i raddau helaeth
- Glanhawyr trenau
- Y gwaith o adnewyddu fflyd gyfan Valley Lines o drenau Pacer / Sprinter i gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn hon
- Rhaglen helaeth i foderneiddio'r trenau er mwyn gwella perfformiad
- Rhaglen helaeth i recriwtio criwiau trenau
- Gwelliannau i'r amserlen ym Mehefin a Hydref, rhagor o drenau i Wrecsam, cynyddu nifer y teithwyr y gall Valley Lines ddarparu ar eu cyfer
- Ceisiadau RPP llwyddiannus – rhagor o wasanaethau yng Ngorllewin Cymru, ar Reilffordd Canol Cymru, gwelliannau i orsaf Hwlfordd.

ATODIAD 4

CYFLWYNIAD GAN VIRGIN TRAINS (CHRIS TURNER)

VIRGIN TRAINS

Mae ein perfformiad ar y naill fasnachfaint a'r llall yn dal i wella ac mae'n well ar hyn o bryd nag y bu ers blwyddyn. Mae ein fflyd oedrannus yn dal i siomi ein cwsmeriaid, a ninnau, ac rydym yn newid ein holl setiau trenau presennol am drenau Voyager neu Super Voyager.

Mae'r trenau hyn yn cael eu darparu i ni ar amser ac rydym eisoes wedi derbyn pob un o'r 34 trê Voyager ac mae'r cyntaf o'r 44 trê Super Voyager yn cael ei brofi ar hyn o bryd.

Gogledd Cymru

Ar hyn o bryd mae Virgin Trains yn cynnal 3 trê dwy ffordd y dydd rhwng Caergybi ac Euston fel rhan o fasnachfaint Arfordir y Gorrlewin. Mae'r trenau hyn yn gymysgedd o drenau HST

(Trenau Cyflym) a setiau locomotif. Byddwn yn newid y trenau hyn am Super Voyagers yn gynnar yn 2003 ac wrth newid i amserlen yr haf ym Mai 2003 byddwn yn mwy na dyblu amllder y gwasanaeth i wasanaeth bob dwy awr.

De Cymru

Ar hyn o bryd mae Virgin Trains yn cynnal 1 HST dwy ffordd rhwng Abertawe a Newcastle fel rhan o'r fasnachfaint TrawsGwlad. Byddwn yn newid y trenau hyn am Voyagers eleni ac rydym eisoes wedi newid un gwasanaeth i Abertawe ar y Sul. Wrth newid i amserlen y gaeaf ym Medi 2002 ceir newid radical yn amllder y gwasanaeth i Dde Cymru gyda gwasanaeth bob dwy awr o Gaerdydd gydol y dydd. Bydd un o'r trenau hyn yn dechrau o Abertawe ac yn gorffen yno. Mae'r trenau hyn yn mynd yn uniongyrchol i Gaeredin ac am y tro cyntaf byddant yn cysylltu De Cymru a'r Alban – gwasanaeth rhyngwladol!

Am ragor o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Chris Turner, Rheolwr Rhanbarthol y De Orllewin, Virgin Trains, Llawr 1^{af}, Victoria House, Temple Meads, Bryste, BS1 6PW neu chris.turner@virgintrains.co.uk